

GWILYM AB IOAN

ABERAERON

04 August 2017

Reference: Parking Charge Notice – 072648/311439

Dear Sir / Madam,

Thank you for your correspondence in relation to the Parking Charge incurred on 14 June 2017 at 17:28, at Rheidol Retail Park.

We would like to make you aware that the Welsh Language Act 1993 outlines a number of 'public bodies' which have a duty to prepare schemes under the act. **As ParkingEye is not a company or public body under the provisions of this act, it is not a necessity for our correspondence to be issued in Welsh. We are, therefore, unable to respond to your correspondence and advise that you write to us in English.**



Alternatively, payment can be made by telephoning our offices on **0330 555 4444** or by visiting [www.parkingeye.co.uk](http://www.parkingeye.co.uk) or by posting a cheque or postal order to the address detailed below.

If this charge has been paid and you choose to provide further evidence relating to your appeal, please forward this to us for consideration.

Yours faithfully,

ParkingEye Team

Gwilym ab Ioan,

Aberaeron,  
Ceredigion.

**ParkingEye,  
Blwch Post 568,  
Chorley,  
PR6 6HT**

Fy Nghyf.: PE/GabI-01  
Eich Cyf.: 072648/311439  
Dyddiad: 21<sup>st</sup> o Orffennaf 2017.

Annwyl Syr neu Fadam,

**Cyf.: Rhif Cerbyd BIL 4187 – Maes Parcio Parc Masnach Rheidol. Dyddiad y Digwyddiad – Pedwaredd ar Ddeg o Fehefin 2017.**

Yr vwyf yn cydnabod derbyn eich llythyr yn ddyddiedig y nawfed ar hugain o Fehefin 2017 yn cynnwys y cyfeirnod uchod (copi wedi ei amgae er eich hwylustod).

Dylech nodi nad wyf yn cydnabod eich hawl i fynny tâl am barcio ar y safle hwn o dan yr amodau yr ydych wedi eu gosod. Rhestraf fy rhesymau am hyn fel a ganlyn:

1. Nid ydych wedi derbyn fy nghaniatâd i dynnu llun o'm ngherbyd yn gyrru i fewn i'r safle hwn. Er fod gennych rybydd wedi ei arddangos tu fewn i'r safle, yn dweud fod yr unigolyn yn derbyn eich amodau, gan gynnwys tynnu llun o'r cerbyd, nid yw'r rhybudd hwnnw yn ddilys, oherwydd fod y llun wedi ei dynnu cyn y gellir gweld eich rhybudd.
2. Yr ydych yn cyfeirio yn y rhybudd at *gontract* awtomatig rhwng perchennog y safle a'r unigolyn sydd yn parcio ynddo, trwy'r weithred o barcio ar y safle. Drwy mai Downham Property Management Limited (sydd wedi eu cofrestru fel cwmni ar Ynys Jersey) yw perchennogion y safle, a chwmni arall (Fletcher King, 61 Conduit Street, London, W1S 2GB) sydd yn rheoli gweithgareddau Downham Properties Limited, a ParkingEye sydd yn yn cael eu cyflogi i weithredu amodau parcio ar y safle, does dim contract rhyngddof i a ParkingEye. Does dim contract rhwng Fletcher King a mi. Does dim contract rhwng Downham Properties Limited a mi. Ni gyfeirir at enw y perchennog ar y rhybudd. Nid yw'n bosibl i mi gytuno i gontact heb wybod gyda pwy y mae'r contract. Nid wyf ychwaeth wedi gweld geiriad llawn unrhyw gontract.

Fy Nghyf.: **PE/GabI-01**  
Eich Cyf.: **072648/311439**  
Dyddiad: **21<sup>ain</sup> o Orffennaf 2017.**

**Tud. 2 o 2**

Os yr ydych yn golygu gwneud cais am arian yn y Llŷs Sirol yn Northampton, yna dylech gymerid i ystyriaeth y canlynol:

1. Os y derbynnaf wŷs i fynd i'r llŷs, fe fyddaf yn gwneud cais yn syth i drosglwyddo'r gwrandawriad i lŷs yn Aberystwyth, oherwydd yno cafodd y weithred honedig ei gwireddu.
2. Fe fydd cais hefyd yn cael ei wneud i glywed y gwrandawriad yn Y Gymraeg yn unig. Fe fydd angen i'r barnwr fod yn rhygl yn yr iaith honno. Fe fydd yr achos yn cael ei glywed yn Y Gymraeg, ac fe fydd angen i unrhyw gynrychiolwyr gyfreithiol yn yr achos naill i fod yn rhugl yn Y Gymraeg, neu fe fydd angen cyfiethydd yn y llŷs. Fe fydd unrhyw gostiau am y gwasanaeth cyfieithi yn gorfod cael ei dalu gan yr erlynydd.
3. Fe fyddaf yn gwneud cais yn yr ymddiffiniad i gael golwg ar unrhyw contract y mae'r erlynydd yn hawlio sydd mewn grym, ac yn dystiolaeth ysgrifenedig i gadarnhau hynny.
4. Fe fydd angen gweld unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig rhwng yr erlynydd a pherchenog y maes parcio sydd yn dangos fod gan yr erlynydd yr hawl i weitherdu ar ran y perchennog, sef Downham Properties Limited.
5. Fe fydd y cynsail o'r achos hanesyddol (28/03/2014 DFS Potts hawliad wedi ei ddiswyddo 3DJ13428, ParkingEye v Williams) yn cael ei ddefnyddio yn yr amddiffyniad.

Ni fyddaf yn ateb unrhyw ohebiaeth pellach oddi wrth ParkingEye, ac ar gefn hynny, yr wyf yn awr yn rhoi **rhybudd ffurfiol i ParkingEye** fy mod ddim am unrhyw ohebiaeth oddi wrthynt hwy neu unrhyw gynrychiolydd iddynt sydd yn gwneud unrhyw orchymyn neu fygythiad am arian yn yr achos hwn. Os na gydffurfir gyda'r rhybudd hwn, fe fyddaf yn ystyried gwneud cwyn i'r awdurdodau perthnasol.

Yr eidoch yn gywir,

**Gwilym ab Ioan**